



Ysgol Pentreuchaf

147. Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth

Nod

Ceisio cael pob plentyn yn hunan-ddisgybledig, gan feithrin awyrgylch hapus a gweithgar wedi ei sefydlu ar barch rhwng athrawon â'i gilydd, athrawon â phlant, a phlant â'i gilydd, ac â phawb sy'n rhan o'r ysgol, yn ddyddiol neu'n achlysurol.

Amcanion

1. Cael plant i sylweddoli y medrant ddylanwadu ar eu datblygiad eu hunain trwy fod yn hunan-ddisgybledig.
2. Sicrhau ymddygiad priodol bob amser tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Canllawiau

1. Sicrhau fod y staff, y disgyblion a'r rhieni yn gwybod pa ymddygiad sy'n dderbyniol, a beth sy'n annerbyniol. Bydd y rhain yn cael eu negydu gyda'r plant yn flynyddol. Mae'n holl bwysig fod unigolion yn derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a chanlyniad eu gweithredoedd.
2. Sicrhau ein bod yn trafod llawer gyda'r plant, (mewn sefyllfa dosbarth, grŵp, neu unigol) gan roi amser i ddarganfod y gwir am unrhyw anghydfod.
3. Adeiladu ar yr arfer dda sy'n bodoli yn barod o blant yn cyfaddef i unrhyw gam-ymddygiad ac yn dweud y gwir bob amser.
4. Mae'n bwysig ein bod yn gwahaniaethu rhwng ymddygiad sy'n ddrwg a'r hyn sy'n ddireidi, a'n bod yn beirniadu ymddygiad y plentyn, ac nid y plentyn ei hun.
5. Dylai unrhyw gosb fod yn rhesymol ac yn addas i'r drosedd e.e. plentyn sy'n gâs gyda phlant eraill ar amser chwarae yn cael ei gadw i fewn amser chwarae, plentyn sy'n gwrthio o flaen plant eraill i fod yn olaf a.y.y.b.
6. Os yn bosibl (yn ôl oedran a'r math o gam-ymddygiad) dylid cynnig cyfle i'r plentyn ddewis ei 'gosb', negydu'r gosb gyda'r plentyn neu gyda'r plentyn a'r plant y mae wedi tarfu arnynt (os oes angen cosb o gwbl).
7. Os bydd achos o fwlio yn digwydd, gweithredir yn ôl y Polisi Gwrth Fwlio.
8. Trwy gynllunio manwl o'r cwricwlwm, gwahaniaethu gofalus a sicrhau cyfle cyfartal, gobeithiwn leihau'r tebygrwydd o blant yn amharu ar blant eraill ac yn cam-ymddwyn o fewn dosbarthiadau
9. Mae'n bwysig gweithredu disgyblaeth unffurf drwy'r ysgol gan sicrhau fod pob aelod o staff yn ymateb yn gyson a theg.
10. Os bydd unrhyw achos o gam-ymddwyn yn digwydd ar amser chwarae neu amser cinio, dyma'r drefn i'r oruchwylwraig ei dilyn, gyda'r un drefn i athrawon os bydd cam-ymddwyn o fewn dosbarth, gwasanaeth, ymweliad a.y.y.b. -
 - a) Yr athro/athrawes ddsbarth/goruchwylwraig i ddelio ag unrhyw gam-ymddwyn gan ddisgyblion yn y lle cyntaf. Pan fo athro/athrawes yn cadw plentyn i mewn dros gyfnod 'chwarae' i orffen gwaith, neu fel cosb, yna cyfrifoldeb yr athro/athrawes fydd sicrhau fod goruchwyliaeth addas.
 - b) Y Pennaeth i ddelio â chamymddwyn parhaus neu ddifrifol.
 - c) Cadw cofnodion (dyddiad, trosedd a.y.y.b.) ffeithiol o gamymddwyn difrifol.
 - ch) Gwahodd rhieni i drafod y sefyllfa.
 - d) Os yn briodol, gosod disgybl ag anghenion ymddygiadol ar Gyfnodau'r Rhestr Argymhellion Anghenion Dysgu Ychwanegol, monitro ac adolygu ei ddatblygiad. Galw asiantaethau allanol a.y.y.b. i mewn fel bo'r angen.
 - dd) Ystyried camau statudol pellach ar ôl trafod gyda'r Llywodraethwyr.
11. Rhaid dilyn trefn yr ysgol i sicrhau diogelwch pob plentyn ac atal triwntiaeth - os bydd plentyn yn absennol a'r ysgol heb dderbyn galwad ffôn neu lythyr gan riant erbyn 9.10 a.m., rhaid i'r athro/athrawes ddsbarth roi gwybod i'r pennaeth fydd yn cysylltu â'r rhieni ar fyrder.

Casgliad

Mae disgyblaeth (a hunan-ddisgyblaeth) yn rhan annatod o ddatblygiad plentyn i sicrhau ysgol hapus, ac addysg o'r ansawdd orau.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____